**Eitem: 15**

**Teitl:** Adroddiad Risg Corfforaethol

| | |
|---|---|
| **Camau Gweithredu sy'n ofynnol** | I'w derbyn er gwybodaeth a sicrwydd. |
| **Amseru** | Arferol |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r sefyllfa bresennol gyda'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.<br><br>Gofynnir hefyd i'r Bwrdd nodi'r camau nesaf arfaethedig i adolygu'r dull sefydliadol o reoli risg ochr yn ochr â datblygu Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd. |
| **Risg** | Gallai methu â dal a rheoli ein risgiau strategol arwain at ganlyniadau tymor byr a hwy i Llais. |
| **Cyllid** | Ddim yn berthnasol |
| **Amcan y cynllun blynyddol**<br>**Amcan y cynllun strategol**<br>**Amcan y cynllun 100 diwrnod** | Mae ein cofrestr risg corfforaethol yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Tîm Arwain bod yr holl risgiau strategol wedi'u nodi a'u bod yn cael eu rheoli'n effeithiol.<br><br>Mae fframwaith risg y sefydliad yn rhan allweddol o'n trefniadau fframwaith llywodraethu a sicrwydd ac mae'n arf pwysig i alluogi'r Bwrdd i asesu a yw ar y trywydd iawn i gyflawni ei amcanion ai peidio ac i nodi pa gamau a phenderfyniadau ychwanegol y gallai fod eu hangen yn y dyfodol. . |
| **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant** | Ddim yn berthnasol |
| **Cyfathrebu** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Yn Fewnol:** ein pobl ☒ |

| | |
|---|---|
| | **Yn Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Yn Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Clirio** | Mae'r papur hwn wedi'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr. |
| **Trafodaethau neu benderfyniadau blaenorol** | Mae'r Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg cyffredinol wedi'u cymeradwyo'n flaenorol gan y Bwrdd. Mae'r Tîm Arwain yn adolygu ac yn diweddaru'n rheolaidd y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r fframwaith o gofrestrau risg gweithredol ar lefelau rhanbarthol a chorfforaethol.<br><br>Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ym mhob un o'i gyfarfodydd ac ymgymerwyd â hyn yn ei gyfarfod diweddaraf ym mis Mawrth 2024. |
| **Awdur Cyflwyno** | Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd |
| **Dyddiad** | 08-04-2024 |

## Cefndir

**Datblygu'r Fframwaith Risg ar gyfer Llais:**
Mae'r Bwrdd eisoes wedi cytuno ar barodrwydd i dderbyn risg y sefydliad, ei bolisi rheoli risg a'r gofrestr risg gorfforaethol. Fodd bynnag, roedd y fframwaith risg hwn ar gyfer Llais bob amser yn cael ei weld fel dull a oedd yn cael ei datblygu yn ystod blwyddyn gyntaf y sefydliad, gan fod y Bwrdd yn cydnabod bod angen Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd hefyd.

Mae rheoli risg yn rhan hanfodol o'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd cyffredinol. Felly, mae'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi cytuno y bydd gwaith adolygu pellach yn cael ei wneud ar y dull rheoli risg fel y mae'n berthnasol i'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd sefydliadol ehangach. Mae hyn hefyd wedi'i drafod gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'i gefnogi. Gofynnwyd i Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd arwain y gwaith adolygu hwn gydag ymgysylltiad gweithredol y Bwrdd a'r Tîm Arwain.

Mae gwaith adolygu a datblygu yn digwydd a bydd yn dod i ben yn ystod mis Mai. Bydd hyn yn galluogi cynigion i gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mehefin 2024 i'w cymeradwyo cyn dod i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

**Cofrestr Risgiau Corfforaethol – Ebrill 2024:**

Mae'r gofrestr risgiau corfforaethol yn ddogfen fyw ac yn cael ei hadolygu o leiaf bob mis gan y Tîm Arwain ac yn chwarterol gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol lawn ynghlwm wrth yr adroddiad hwn er gwybodaeth.

**Fformat yr adroddiad yn y dyfodol:** Yn unol â'r gwaith adolygu uchod, bydd trefniadau adrodd newydd yn cael eu sefydlu ar gyfer y Bwrdd, Pwyllgorau a'r Tîm Arwain. Bydd y fformat newydd hwn yn ceisio darparu gwybodaeth lefel uchel am broffil risg y sefydliad, lle mae newidiadau allweddol wedi digwydd yn y proffil a'r rhesymau/ffactorau mewnol ac allanol sydd wedi achosi'r newidiadau mewn asesiadau.

Bydd hefyd yn darparu gwybodaeth am risgiau newydd a'r dirwedd rheoli risg yn gyffredinol yn ymwneud ag amcanion a rolau a chyfrifoldebau Llais y cytunwyd arnynt. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd i wneud asesiadau a chael sicrwydd ynghylch a yw'r sefydliad ar y trywydd iawn i gyflawni ei amcanion a pha gamau adferol y gallai fod angen eu cymryd i fodloni ei ofynion strategol wrth symud ymlaen. Bydd y fformat adrodd newydd hwn yn cael ei sefydlu erbyn mis Mehefin 2024.

## Manylion

Mae’r gofrestr risg gorfforaethol gyfredol, a adolygwyd gan y Tîm Arwain ar 9 Ebrill 2024 wedi’i gynnwys gyda phapurau i’w hystyried a’u nodi ac fe’i darperir fel Atodiad A.

**Cam Gweithredu:**
Gofynnir i'r Bwrdd wneud sylwadau ar yr adroddiad hwn a'r fersiwn gyfredol o'r gofrestr risg gorfforaethol a'u nodi.

**Y camau nesaf:**
Bydd Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd yn gweithio gyda'r arweinwyr sefydliadol perthnasol a'r Bwrdd i wneud y gwaith adolygu manwl ar y fframwaith rheoli risg ond bydd hefyd yn parhau i roi cyngor a chymorth ar ddefnyddio'r rhwydwaith presennol o gofrestrau risg gweithredol a'r a'r system rheoli risg ehangach hyd nes y caiff trefniadau newydd eu mabwysiadu. Bydd hyn yn cynnwys darparu canllawiau pellach, prosesau llif risg a chodi ymwybyddiaeth, yn ôl yr angen.